Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Cynllun Strategol y Gymraeg

# 2021 – 2024

Cenhadaeth Estyn yw parhau i gyflawni rhagoriaeth ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel. Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn gweld yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r weledigaeth hon.

- Rydym yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog.
- Rydym yn coleddu'r Gymraeg fel dewis iaith i lawer ac fel rhan o'n diwylliant bob dydd.
- Rydym yn croesawu adborth ar ein hamcanion a byddwn yn falch o drafod awgrymiadau am y modd y gallem wella ein hamcanion a datblygu camau gweithredu cefnogol.

**Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg**

Fel corff cyhoeddus, rydym yn ymdrechu i alinio ein gwaith â pholisi Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel yr amlinellir yn Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg. (2017).

Rydym yn cytuno â'r datganiadau a wnaed gan y Prif Weinidog bryd hynny, sef *'Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru'* ac yn nodi perthnasedd ei ddatganiad fod *'Addysg yn ganolog i'n gweledigaeth, ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein pobl ifanc yn gadael y system addysg yn barod i ddefnyddio'r iaith ym mhob cyd-destun ac yn falch o gael gwneud hynny.'*

Gwnawn hyn drwy ymgorffori'r nodau yn ein hamcanion strategol ac, felly, mewn penderfyniadau ar draws ein sefydliad, gan gynnwys datblygiad y Cynllun Iaith Gymraeg Strategol hwn.

Mae dyletswydd statudol ar Estyn i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel sefydliad sy'n dod o fewn Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Rhestrir y ddeddfwriaeth berthnasol isod. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein Hamcanion Iaith Gymraeg am y cyfnod 2021-2024.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'n dweud hefyd mai prif nod Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth arfer swyddogaethau yn unol â'r prif nod hwn, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi ystyriaeth:
- i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
- i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac
- i'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Safonau'r Gymraeg**

- Mae'r Mesur yn rhoi grym cyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg drwy alluogi pennu safonau'r Gymraeg ('safonau') ar gorff.[1]
- Mae pum dosbarth o safonau:
  - safonau cyflenwi gwasanaethau
  - safonau llunio polisi
  - safonau gweithredu
  - safonau hybu,[2]
  - safonau cadw cofnodion.[3]
- Mae safonau yn egluro sut dylai corff drin y Gymraeg a'i defnyddio mewn senarios gwahanol, er enghraifft, wrth anfon gohebiaeth, delio â galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb, llunio polisïau neu wrth ddarparu gwasanaethau yn fewnol i staff

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg yn Estyn yn manylu mwy ar ein gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae Estyn wedi mabwysiadu'r egwyddor ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein polisi iaith Gymraeg yn amlinellu'r ffordd y mae Estyn yn gweithredu yn unol â'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hymagwedd at y modd y darparwn ein gwasanaethau Cymraeg yn fewnol ac yn allanol. Mae'r Polisi yn rhoi ystyriaeth lawn i ofynion safonau'r Gymraeg ac yn dynodi ein harfer bresennol a'n harfer sy'n datblygu ar draws y meysydd sy'n dod o dan y safonau hynny.

Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyflawni ein hamcanion strategol, trwy dynnu sylw darparwyr addysg at eu dyletswydd eu hunain i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ein hamcanion iaith Gymraeg yn cynnwys y modd yr ystyriwn yr iaith Gymraeg a materion diwylliannol Cymreig pan fyddwn yn arolygu a rheoleiddio, a sut byddwn ni'n sicrhau y bydd dealltwriaeth lawn gan ein staff ein hunain a'r rheiny a gyflogwn ar gontract o'n rhwymedigaethau cyfreithiol a'n cydymffurfiaeth, yn ogystal â'n gweledigaeth o ran y Gymraeg.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Gellir cael mwy o wybodaeth am Fesur y Gymraeg a'r modd y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i gyrff rhestredig, gan gynnwys Estyn, gan ddilyn y dolenni isod:

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016**

https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/182/schedule/1/made

---

[1] Yng nghyd-destun y safonau, mae 'corff' yn sefydliad a chanddo ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau.
[2] Nid yw'r dosbarth safonau hwn wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.
[3] Gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, wneud darpariaeth arall ynglŷn â'r cyfryw safonau (h.y. safonau ategol).

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn amlinellu diben cyffredin i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i ni gyd. Cynrychiolir y diben cyffredin gan gyfres integredig o saith o nodau llesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith.

Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i Estyn (nid ydym yn gorff cyhoeddus rhestredig at ddibenion y Ddeddf), rydym, serch hynny, yn cefnogi ysbryd y Ddeddf ac yn ceisio adeiladu'r elfennau lles angenrheidiol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein cynllunio, llywodraethu a chyflawni gweithredol. Yn ogystal, amcanwn i alinio ein hymagwedd at y Gymraeg yn briodol gyda'r Ddeddf mewn perthynas â'r Gymraeg, a'i chynnwys o fewn y cysyniad ymgysylltiad sifil fel 'gweithredu at ddiben hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru.' Mae'r Ddeddf yn datgan yn glir hefyd fod iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn rhan hanfodol o un o'r saith nod llesiant.

Gweler Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion i gael mwy o wybodaeth.

**Crynodeb o'r Amcanion Iaith Gymraeg**

Rydym wedi nodi 5 o amcanion iaith Gymraeg allweddol ar gyfer 2021-2024.

| | |
|---|---|
| **Amcan 1:** | Byddwn yn hyrwyddo cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ar draws ein gweithlu cyfan trwy fentrau fel ARFer drwy Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor |
| **Amcan 2:** | Hyrwyddo cysyniad y 'cynnig rhagweithiol' yn hytrach nag ymagwedd adweithiol at wasanaethau Cymraeg. Byddwn yn parhau â'n prosesau hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn fewnol er mwyn mesur effeithlonrwydd ein trefniadau cydymffurfio presennol. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio gwella'n safonau cyflenwi gwasanaethau yn gyson a chydymffurfio â deddfwriaeth fel y waelodlin ofynnol i ni allu gwella ohoni. |
| **Amcan 3** | Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'i chyd-destun hanesyddol trwy weithgarwch arolygu, gan gynnwys adroddiadau arolygu ac adroddiadau thematig, yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru. |
| **Amcan 4** | Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfranogi'n gyson mewn ymgynghoriadau cyhoeddus a deddfwriaethol perthnasol. |
| **Amcan 5** | Drwy ymgysylltu'n gadarnhaol ac ymrwymo i'r amcanion uchod, byddwn yn amcanu at arwain drwy esiampl, fel sefydliad sy'n hyrwyddo ac yn defnyddio hunanwerthuso gonest ac agored ac yn coleddu pwysigrwydd y Gymraeg i'n gweledigaeth ddiwylliannol ac addysgol. |

**Sut y datblygom ein hamcanion iaith Gymraeg**

Datblygwyd ein hamcanion iaith Gymraeg drwy ymgynghori'n fewnol gyda staff, er enghraifft drwy ein Gweithgor Iaith Gymraeg a'n Grŵp Swyddogion Arweiniol Iaith Gymraeg, ac yn allanol, drwy'r gweithgareddau canlynol:

- Ymgysylltu â swyddogion yn cynrychioli Comisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys gweithdrefnau cydymffurfio.
- Ystyried y materion a'r argymhellion yn y cyhoeddiadau canlynol:
    - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
    - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016
    - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
    - Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg
    - Adroddiad Cydymffurfio CYG
    - Dogfen Recriwtio Dwyieithog gan CYG
    - Dogfen ganllawiau cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog CYG
    - Cod Ymarfer Rheoliadau Rhif 2 CYG
    - Hyrwyddo'r defnydd o Wasanaethau Cymraeg CYG
    - Goruchwylio cydymffurfio CYG
    - Cofnodi a rhannu dewis iaith CYG
    - Safonau'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg CYG
    - Mwy na Geiriau
    - Pecyn cymorth ARFer
    - Canfyddwr lefel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chyrsiau blasu Cymraeg Gwaith https://dysgucymraeg.cymru/ https://learnwelsh.cymru/ https://learnwelsh.cymru/work-welsh/learn-welsh-level-checker-1/

**Amcanion Iaith Gymraeg 2021-2024**

Rydym wedi nodi 5 amcan y byddwn ni'n canolbwyntio arnynt yn benodol. Ar gyfer pob amcan, rydym wedi amlinellu camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni, a'n meini prawf llwyddo.

**Amcan 1:**

**Byddwn yn hyrwyddo cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ar draws ein gweithlu cyfan trwy fentrau fel ARFer drwy Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor**

1.1 Byddwn yn gweithio gyda Chanolfan Bedwyr i ddatblygu pecyn cymorth pwrpasol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg rhwng aelodau staff. Mae ymchwil o'r prosiect ARFer wedi dangos bod y defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd wedi lleihau yn sgil trosglwyddo i weithio ar-lein yn ystod y pandemig.

1.2 Bydd y fenter yn targedu siaradwyr rhugl a dysgwyr hyfedr yn bennaf. Fodd bynnag, bydd pob aelod o staff, beth bynnag yw ei lefel iaith, yn cael ei annog i ddefnyddio'r iaith yn unol â'i lefel, gyda'r nod o gynyddu ymgysylltiad yr holl aelodau staff gyda chydweithwyr, rhanddeiliaid allanol ac aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

1.3 Fel cam cyntaf, byddwn yn cynnal dadansoddiad manwl o fedrau iaith aelodau staff er mwyn canfod ble maen nhw arni ar hyn o bryd ar y continwwm iaith. Trwy ddefnyddio offer priodol fel gwiriwr lefel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, byddwn yn

gallu mapio'u safle ar y Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion sy'n gyson â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) a fframwaith y Gymdeithas Profwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE). (gweler isod)

| **Lefel Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**<br><br>*Arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC sydd ar gael | **Lefel CEFR** | **Lefel ALTE** |
|---|---|---|
| Mynediad * | A1 | Mynediad |
| Sylfaen * | A2 | 1 |
| Canolrif * | B1 | 2 |
| Uwch * | B2 | 3 |
| Hyfedredd | C1 | 4 |
| - | C2 | 5 |

Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion—mae trosolwg o ddatganiadau lefelau gallu yn cael ei ddarparu yn y ddogfen hon https://dysgucymraeg.cymru/media/1645/cymraeg-final.pdf

1.4 Byddwn yn gallu targedu cyrsiau ar gyfer hyfforddiant mewnol yn strategol yn unol ag anghenion unigol a chorfforaethol ar ôl coladu'r wybodaeth uchod.

**Camau gweithredu**

- Gweithio gyda Chanolfan Bedwyr i ddatblygu'r pecyn cymorth/canllawiau
- Trafod yr ystod o fentrau yn y Gweithgor Iaith Gymraeg.
- Gweithio gyda'r Adran Adnoddau Dynol i roi profion lefel iaith ar waith.
- Dadansoddi canlyniadau a darparu cyrsiau, fel y bo'n berthnasol.
- Parhau i gynnig cyfleoedd datblygu, fel cysgodi arolygiadau cyfrwng Cymraeg, i ddysgwyr ar lefel hyfedr briodol a staff y mae angen iddynt feithrin eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun proffesiynol. Dylai'r cyfryw gyfleoedd gynnwys gweithgareddau a fydd yn fanteisiol i ddatblygiad ieithyddol a phroffesiynol yr unigolyn hwnnw, a dylid eu cytuno ymlaen llaw.
- Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg trwy gyfathrebiadau yng nghylchlythyr y staff a'r fewnrwyd a hyfforddiant, gan gynnwys yr holl raglenni sefydlu ar gyfer gweithwyr newydd.
- Sicrhau bod yr holl weithwyr newydd yn ymgymryd â chyrsiau blasu Cymraeg sydd ar gael drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith, a pharhau i weithredu hyn gydag aelodau staff sy'n trosglwyddo'n fewnol i adrannau sy'n delio'n rheolaidd ag aelodau'r cyhoedd.
- Parhau i weithio tuag at sicrhau bod yr oslef llais corfforaethol yn Gymraeg yn hygyrch i gynulleidfa ehangach ac yn haws ei deall.

**Meini prawf llwyddo**

- Niferoedd uwch o aelodau staff yn adrodd eu bod yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith mewnol. Bydd modd i ni osod targedau mesuradwy ac asesu cynnydd yn erbyn yr amcan hwn pan fyddwn ni wedi pennu gwaelodlin mewn perthynas â gallu iaith yr holl staff yn y pedair medr iaith
- Mwy o integreiddio dysgwyr Cymraeg sy'n hwyluso'u defnydd o'r iaith gyda chydweithwyr.

**Amcan 2:**

**Byddwn yn hyrwyddo cysyniad y 'cynnig rhagweithiol' yn hytrach nag ymagwedd adweithiol at wasanaethau Cymraeg. Byddwn yn parhau â'n prosesau hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn fewnol er mwyn mesur effeithlonrwydd ein trefniadau cydymffurfio presennol. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio gwella'n safonau cyflenwi gwasanaethau yn gyson a chydymffurfio â deddfwriaeth fel y waelodlin ofynnol i ni allu gwella ohoni.**

2.1 Byddwn yn ystyried sut gallwn newid meddylfryd y sefydliad i fod yn rhagweithiol yn y ffordd yr ydym yn mynd ati i hyrwyddo ymgysylltiad â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.2 Byddwn yn amcanu at feithrin a normaleiddio pwysigrwydd hyrwyddo disgwyliadau uchel o ran cydraddoldeb a chynhwysiant ieithyddol. Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i gydweithwyr sy'n rheoli rhai eraill ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

2.3 Byddwn yn parhau i ddefnyddio prosesau sy'n monitro cydymffurfiaeth ac yn meithrin diwylliant o hunanasesu ac asesu cymheiriaid gan arwain at hunanfyfyrio buddiol a gwelliant parhaus. Byddwn yn amcanu at gynyddu perchnogaeth o'r polisi iaith Gymraeg a chydymffurfio i ffwrdd oddi wrth unigolion allweddol o fewn adrannau penodol drwy hyrwyddo diwylliant o gyfrifoldeb a pherchnogaeth gorfforaethol a cholegol.

2.4 Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl aelodau staff newydd (parhaol neu dros dro) ac yn sicrhau bod pwyslais cryf ar y cynnig rhagweithiol gan bawb o fewn y sefydliad.

**Camau gweithredu**

- Parhau ac ymestyn ein defnydd o logos Cymraeg Gwaith ac ati yn ein holl gyfathrebiadau ysgrifenedig ac ar lwyfannau rhithwir, fel llwyfannau fideo-gynadledda, fel rhan o'n templedi hunaniaeth gorfforaethol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg o ran cynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd trwy ddefnyddio cyfieithu ar y pryd yn rhagweithiol ac yn arferol, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir.
- Ymchwilio i'r defnydd o gronfeydd data ar draws Estyn er mwyn sicrhau bod dewis iaith unigolion a sefydliadau yn cael eu cofnodi a'u rhannu'n gyson ac yn effeithiol.
- Ymchwilio i'r dechnoleg sydd ar gael i gynyddu a gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol.

- Mesur effeithlonrwydd cydymffurfiaeth â deddfwriaeth drwy'r Gweithgor iaith Gymraeg.
- Sicrhau bod hyfforddiant staff, lle bo modd, wedi'i dargedu'n strategol at wella perfformiad a chydymffurfiaeth, gan gynnwys hyfforddiant i'r rheiny sy'n ymchwilio i gwynion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.
- Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg trwy gyfathrebiadau yng nghylchlythyr y staff a'r fewnrwyd a hyfforddiant, gan gynnwys yr holl raglenni sefydlu ar gyfer gweithwyr newydd.
- Sicrhau bod yr holl weithwyr newydd yn ymgymryd â chyrsiau blasu Cymraeg sydd ar gael drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith, a pharhau i weithredu hyn gydag aelodau staff sy'n trosglwyddo'n fewnol i adrannau sy'n delio'n rheolaidd ag aelodau'r cyhoedd.
- Parhau i weithio tuag at sicrhau bod yr oslef llais corfforaethol yn Gymraeg yn hygyrch i gynulleidfa ehangach ac yn haws ei deall.

**Meini prawf llwyddo**

- Niferoedd mwy o randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd yn ymgysylltu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg (lle gellir mesur hyn). E.e. fforymau rhanddeiliaid, ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, lawrlwythiadau ac ati.
- Parhau i fonitro cwynion yn ymwneud â diffyg gwasanaethau Cymraeg neu safon y gwasanaeth a gyflawnwyd.

**Amcan 3:**

**Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'i chyd-destun hanesyddol trwy weithgarwch arolygu, gan gynnwys adroddiadau arolygu ac adroddiadau thematig, yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru.**

3.1 Cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar faterion Cymraeg mewn addysg ar draws y sectorau addysg.

3.2 Sicrhau cysondeb mewn negeseuon ac argymhellion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn adroddiadau arolygu a/neu adroddiadau thematig sy'n gyson â'n trosolwg strategol mewn perthynas â'r iaith ac addysg.

3.3 Cyfranogi mewn cyfarfodydd cyhoeddus, fforymau a chyfarfodydd sy'n trafod materion o'r fath mewn modd cyson strategol.

**Camau gweithredu**

- Sicrhau bod arolygwyr, ar draws ystod ein gweithgarwch arolygu, yn ymchwilio ac yn gwerthuso'r defnydd o'r Gymraeg yn unol â chanllawiau arolygu sectoraidd, a bod unrhyw argymhellion yn adlewyrchu ein nodau strategol addysgol ac ieithyddol.
- Cofnodi deilliannau gweithgarwch arolygu ar draws sectorau mewn perthynas â'r pwynt uchod drwy'r Grŵp Swyddogion Arweiniol Iaith Gymraeg.

**Meini prawf llwyddo**

- Trwy fesur ystod yr argymhellion mewn adroddiadau yn ymwneud â'r Gymraeg a dadansoddi'u cysondeb, dilysrwydd strategol ac effaith ar ddeilliannau ar draws sectorau drwy'r Grŵp Swyddogion Arweiniol Iaith Gymraeg.

**Amcan 4**

**Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfranogi'n gyson mewn ymgynghoriadau cyhoeddus a deddfwriaethol perthnasol**

4.1 Byddwn yn parhau i gynnig ein barn gorfforaethol ar ystod o ymgynghoriadau statudol yn ymwneud ag addysg a chydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg ac ati.

4.2 Bydd ein barn gorfforaethol yn cael ei hysgogi gan ein gweledigaeth i gyflawni rhagoriaeth ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel. Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn gweld yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r weledigaeth hon.

4.3 Wrth lunio barn gorfforaethol gytûn ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, byddwn yn defnyddio gwybodaeth a sylfaen medrau'r Grŵp Swyddogion Arweiniol Iaith Gymraeg i lywio'r broses hon mewn modd cyson a strategol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol sefydliadol a llywodraethol.

**Camau gweithredu**

- Sicrhau ymgysylltu'n llawn ag ymgynghoriadau statudol yn ymwneud ag addysg a chydymffurfio â deddfwriaeth iaith Gymraeg ac unrhyw oblygiadau i'r iaith trwy ddefnyddio gwybodaeth arbenigol staff Estyn.

**Meini prawf llwyddo**

- Parhau i gyfrannu at brosesau ymgynghori, a monitro effaith ein cyfraniadau at y prosesau hynny.

**Amcan 5**

**Drwy ymgysylltu'n gadarnhaol ac ymrwymo i'r amcanion uchod, byddwn yn amcanu at arwain drwy esiampl, fel sefydliad sy'n hyrwyddo ac yn defnyddio hunanwerthuso onest ac agored ac yn coleddu pwysigrwydd y Gymraeg i'n gweledigaeth ddiwylliannol ac addysgol.**

5.1 Ein nod fydd cael ein hystyried yn enghraifft o arfer orau yn ymwneud â hyrwyddo, cydymffurfio ac arfer addysgol effeithiol yn fewnol ac ar draws y sectorau addysgol.

**Camau gweithredu**

- Hyrwyddo gweledigaeth strategol Estyn o ran y Gymraeg drwy'r Gweithgor Iaith Gymraeg a'r Grŵp Swyddogion Arweiniol Iaith Gymraeg, a datblygu ein methodolegau yn rhagweithiol mewn arolygu a chydymffurfio er mwyn cyflawni'r amcan hwn.

**Meini prawf llwyddo**

- Sicrhau deilliannau cadarnhaol yn ein trafodion gyda thîm cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg a thrwy fesur unrhyw gyfeiriadau at ein deilliannau a'n mentrau yn adroddiad cydymffurfio blynyddol y Comisiynydd ar sefydliadau ledled Cymru sydd dan ddyletswydd statudol i weithredu Safonau'r Gymraeg.
- Trwy gasglu gwybodaeth am gyfeiriadau yn y parthau cyhoeddus neu wleidyddol yn ymwneud â'n gwaith mewn meysydd perthnasol.